Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol

## Y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

**Ebrill 2026**

# Cynnwys


Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol ..... 1
Crynodeb gweithredol ..... 1
Y cyd-destun a'r cefndir ..... 4
Trosolwg o'r dadansoddiad a wnaethpwyd ..... 5
Rôl a nod y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol ..... 6
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 6
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 6
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 7
Argymhellion ymarferol ..... 7
Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol ..... 8
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 8
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 8
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 9
Argymhellion ymarferol ..... 10
Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol ..... 10
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 10
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 11
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 11
Argymhellion ymarferol ..... 12
Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma Rhyngwladol ..... 13
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 13
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 13
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 14
Argymhellion ymarferol ..... 15
Marchnata'r Diploma Rhyngwladol ..... 15
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 15
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 16
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 16
Argymhellion ymarferol ..... 17
Trefniadau pontio a gweithredu ..... 18
Yr hyn a gynigwyd gennym ..... 18
Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr ..... 18
Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ..... 18
Argymhellion ymarferol ..... 19
Y casgliad a'r camau nesaf ..... 20
ATODIAD: ..... 21

# Crynodeb gweithredol

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (y 'Diploma'), cymhwyster sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr sy'n byw yn y DU yn unig. Mewn ymateb i ddiddordeb gan y sector, mae QAA wedi archwilio dichonoldeb cyflwyno Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol ('Diploma Rhyngwladol') i ddysgwyr y tu allan i'r DU.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniad ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer penderfynu a ddylai QAA fwrw ymlaen â phrosiect peilot i brofi dichonoldeb y Diploma Rhyngwladol.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y dylid llunio'r Diploma Rhyngwladol ar sail y Diploma sy'n bodoli'n barod yn y DU a'i alinio'n llawn â Chynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU. Roedd yn gofyn am adborth am y dull arfaethedig o reoleiddio a thrwyddedu'r cymhwyster, yn cynnwys y trefniadau y gallai'r Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') weithredu oddi tanynt yn rhyngwladol. Nod yr ymgynghoriad oedd profi eglurder a diben y cymhwyster, asesu a oedd modd gweithredu'r fframwaith trwyddedu, a chasglu sylwadau am y trefnau diogelu, y disgwyliadau a'r gofynion gweithredol oedd yn angenrheidiol i sicrhau bod y Diploma Rhyngwladol yn parhau'n gymaradwy â'r Diploma Mynediad i AU ar gyfer y DU pan fyddai'n cael ei gyflwyno y tu allan i'r DU.

Ym mis Rhagfyr 2025, penderfynodd Bwrdd QAA nad yw am fwrw ymlaen â chynlluniau i dreialu'r Diploma Rhyngwladol. Mae sail resymegol y penderfyniad hwn wedi ei hesbonio yn y ddogfen gysylltiedig *'Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot arfaethedig'*.

Am nad yw am fwrw ymlaen â'r prosiect, nid yw QAA wedi ystyried na phenderfynu beth yw ei safbwyntiau ar yr awgrymiadau penodol a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, gallai'r dadansoddiad a gynigir gynnig mewnwelediad a allai fod yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill sy'n gobeithio llunio neu weithredu cymhwyster rhyngwladol.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd y mewnwelediad a rannwyd gan y naw cyfranogwr yn yr ymgynghoriad (wyth Asiantaeth Dilysu Mynediad i AU ac un darparwr tramor) ac ystyried sut y gallai eu hadborth siapio unrhyw waith y bydd QAA neu'r sector ehangach yn ei wneud o bosib yn y dyfodol.

Mae Tabl 1 isod yn nodi'r prif ganfyddiadau, ac mae rhestr gyfun o argymhellion yn yr Atodiad.

**Tabl 1 - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

| Thema | Yr hyn a gynigiwyd | Adborth allweddol (canfyddiadau'r ymgynghoriad) | Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| **Rôl a nod y Diploma Rhyngwladol** | • Cyflwyno cymhwyster Mynediad i AU rhyngwladol ar lefel 3[1] sydd wedi ei alinio â'r Diploma yn y DU<br>• Seilio'r cynllun newydd ar y Cynllun Cydnabod Mynediad i AU sy'n bodoli'n barod | • Mae'r diffiniad yn eithaf clir ond mae angen gwahaniaethu'r Diploma'n fwy eglur oddi wrth raglenni blwyddyn sylfaen<br>• Ansicrwydd ynglŷn â llwybrau cynnydd (addysg uwch yn y DU, addysg drawswladol y DU, addysg uwch mewn gwlad dramor)<br>• Pryderon am y gofyniad oedran isaf a goblygiadau o ran tegwch | • Gwneud y diffiniad a'r safle academaidd yn fwy eglur<br>• Mapio llwybrau cynnydd ac archwilio gweithgareddau cydnabod cyd-drefnus<br>• Ail-archwilio'r gofyniad oedran isaf ac ystyriaethau yn ymwneud â thegwch |
| **Arferion addysgu, dysgu ac asesu** | • Cynnal cyfatebiaeth â lefel 3<br>• Gofyniad am allu priodol yn y Saesneg yn ôl B2<br>• Caniatáu cyfran gyfyngedig o ddysgu cyfunol (sef 20 i 40%)<br>• Cadw Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio | • Cefnogaeth gref i ofyniad B2, ond angen eglurder ynghylch y ffordd y byddai darparwyr yn asesu'r gallu yn y Saesneg<br>• Gwrthwynebiadau cryf i gyfyngiadau penodol ar y gyfran o addysgu ar-lein; risg o annhegwch<br>• Cefnogaeth i'r fanyleb bresennol; ceisiadau am ganllawiau ynglŷn â rhoi'r fanyleb yn ei chyd-destun<br>• Cefnogaeth i'r drefn raddio; angen hyfforddi tiwtoriaid | • Darparu canllawiau am beth yw tystiolaeth dderbyniol i ddangos gallu priodol yn y Saesneg yn ôl B2, yn ogystal â chanllawiau am gyfrifoldebau<br>• Ailystyried cyfyngiadau ar y gyfran o addysgu ar-lein; mabwysiadu dull sy'n ystyried risgiau<br>• Egluro cyd-destun y manylebau; darparu cymorth safoni |
| **Y trefniadau trwyddedu a monitro** | • Cyflwyno llwybr trwyddedu rhyngwladol<br>• Llunio'r trefniadau monitro newydd ar sail y rhai presennol ond ehangu ar y rheiny<br>• Cyflwyno Amodau ychwanegol ar gyfer gweithredoedd rhyngwladol | • Ystyriwyd fod y broses ymgeisio'n aneglur a beichus<br>• Galw cryf am drefn ffioedd eglur<br>• Pryder am ddyblygiad rhwng yr Amodau ar gyfer y DU a'r Amodau rhyngwladol | • Symleiddio a chyfuno'r gofynion ar gyfer y DU a'r gofynion rhyngwladol<br>• Rhoi disgwyliadau clir o ran tystiolaeth a chanllawiau monitro clir<br>• Egluro protocolau ymyrryd a sicrhau eu bod yn gymesur |

[1] Mae esboniad o lefelau'r cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i'w weld ar: www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/list-of-qualification-levels. Mae system ar wahân ar waith yn yr Alban, sef Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF), sy'n defnyddio gwahanol rifau ar gyfer ei lefelau, ond mae ei ofynion dysgu'n gymharol debyg. Er enghraifft, mae lefel 6 SCQF yn disgrifio gofynion sy'n gyfatebol fel arfer â lefel 3 Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig Lloegr a Gogledd Iwerddon [*Regulated Qualifications Framework (RQF)*], ac mae lefelau 9 a 10 SCQF yn alinio'n fras â lefel 6 y RQF (lefel gradd baglor). Ni ddarperir Diplomâu Mynediad i AU yn yr Alban ar hyn o bryd.

| Thema | Yr hyn a gynigwyd | Adborth allweddol (canfyddiadau'r ymgynghoriad) | Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| **Y trefniadau pontio, yr amserlen a'r cynllun peilot** | • Gweithredu cyfnod peilot o ddwy flynedd (o 2025-26 ymlaen)<br>• Defnyddio datganiadau o ddiddordeb a phroses ymgeisio mewn camau<br>• Monitro'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod peilot | • Barnau cymysg am werth a dichonoldeb ffenestr o ddwy flynedd<br>• Dryswch am y pwynt cychwyn a'r dilyniannu<br>• Risg ariannol sylweddol i Asiantaethau DMiAU<br>• Argymhellwyd y dylai Asiantaethau DMiAU fod ag o leiaf bum mlynedd o brofiad o weithredu yn y DU | • Alinio prosiect peilot â chynllun trwyddedu hirdymor<br>• Darparu amserlen glir, cerrig milltir a chynllun gwerthuso<br>• Datblygu trefn ffioedd sefydlog eglur<br>• Cryfhau disgwyliadau o ran cymhwysedd |
| **Marchnata a safle yn y farchnad** | • Defnyddio Nodau Cydymffurfiad a Disgrifyddion Pwnc<br>• Diogelu'r nodau masnach<br>• Hyrwyddo galw cryf am lwybrau mewn meysydd astudio sy'n gysylltiedig ag iechyd | • Mae angen cynnig gwerth rhyngwladol mwy eglur yn berthynol i raglenni blwyddyn sylfaen a Lefelau A<br>• Pryder y gallai cyfyngiadau ar y ddarpariaeth rwystro darparwyr rhag bod yn gystadleuol yn y farchnad<br>• Ansicrwydd ynghylch rôl hyrwyddo QAA; dymuniad am drefn frandio gyson | • Datblygu gwybodaeth hyrwyddo a chynnig gwerth cydlynol<br>• Egluro rôl ymgysylltiad rhyngwladol QAA<br>• Adolygu'r rheolau darparu er mwyn sicrhau dichonoldeb yn y farchnad |

## Y cyd-destun a'r cefndir

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (MiAU'), y cyfeirir ato fel 'y Diploma' o hyn ymlaen. Mae Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU ('y Cynllun Cydnabod') yn darparu'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. O dan y fframwaith hwn, mae QAA yn awdurdodi sefydliadau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Yr enw a roddir ar sefydliad sydd wedi ei awdurdodi gan QAA at y dibenion hyn yw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU').

2 Mae'r Cynllun Cydnabod yn cynnwys y 'Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch' a'r 'Amodau Mynediad i AU'. Mae'r Amodau'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion, disgwyliadau a threfniadau sydd wedi eu nodi mewn dogfennau rheoleiddiol eraill (y 'Dogfennau Rheoleiddiol'). Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau trwyddedu, y trefniadau monitro, y gofynion o ran y cymhwyster, a'r canllawiau.

3 Yn ystod 2024-25, diweddarwyd y Cynllun Cydnabod yn sylweddol i adnewyddu'r gofynion rheoleiddiol ar Asiantaethau DMiAU a'u darparwyr, ac i sicrhau bod risgiau rheoleiddiol yn gallu cael eu rheoli mewn ffordd gymesur gan hefyd gefnogi twf parhaus y Diploma. Bydd y Cynllun Cydnabod diweddaraf wedi ei weithredu'n llawn o 1 Awst 2026 ymlaen.

4 Dechreuwyd y gwaith ffurfiol o ddatblygu Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol (y 'Diploma Rhyngwladol') yn 2020-2022 gyda dau adroddiad a gomisiynwyd am waith ymchwil i'r farchnad a'r dichonoldeb, ac ymgysylltiad yn ymwneud â chyrff y llywodraethau ym Malaysia, Oman, Saudi Arabia a Fietnam. Fodd bynnag, rhoddwyd saib ar y gwaith maes o law er mwyn caniatáu i'r gwaith gael ei gwblhau ar ddatblygu'r Cynllun Cydnabod newydd yr oedd y Diploma Rhyngwladol i fod i alinio ag o.

5 Ailddechreuwyd y gwaith yn 2023, gyda chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar y Cynllun Cydnabod newydd oedd yn archwilio egwyddorion eang y Diploma Rhyngwladol arfaethedig. Cyflwynodd QAA ddau opsiwn i strwythuro cynllun rhyngwladol a nododd bod yr ymatebwyr wedi eu rhannu'n gyfran oedd yn ffafrio un opsiwn, cyfran oedd yn ffafrio'r llall, a chyfran oedd yn mynegi pryderon am y ddau. Hefyd, cynigiodd randdeiliaid ystyriaethau ehangach am ddichonoldeb a dymunoldeb cymhwyster rhyngwladol. Cofnododd yr ymateb i'r ymgynghoriad sylwadau cychwynnol am elfennau penodol o'r cynllun, yn cynnwys gofynion o ran sgiliau Saesneg, y cynnig i gael un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad, a disgwyliadau o ran dysgu cyfunol, ochr yn ochr â sylwadau cyffredinol. Cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn y ddogfen 'Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Adolygiad o'r Trefniadau Rheoleiddio a Thrwyddedu - Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau'.[2]

6 Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus manylach pellach[3]. Yn yr ail ymgynghoriad hwn, er mwyn siapio manylion penodol y Diploma Rhyngwladol arfaethedig a'r trefniadau rheoleiddio, trwyddedu a monitro cysylltiedig, gwahoddwyd rhagor o adborth gan yr holl randdeiliaid, yn arbennig y rheiny gyda mewnwelediad gweithrediadol. Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd cyfnod peilot o ddwy flynedd i gychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26.

---

[2] QAA (2025) *Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Adolygiad o'r Trefniadau Rheoleiddio a Thrwyddedu - Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau*, sydd ar gael ar: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/arlc_0325_annex_8_consultation_response-welsh_final.pdf

[3] QAA (2025) *Ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol*, sydd ar gael ar: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/ymgynghoriad-ar-y-trefniadau-ar-gyfer-trwyddedu-asiantaethau-dilysu-mynediad-i-addysg-uwch-sy'n-gweithredu'n-rhyngwladol.pdf

7 Trwy gydol y cam datblygu, goruchwyliwyd a rheolwyd y gwaith hwn gan Bwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) QAA, a darparwyd adroddiadau i Fwrdd QAA.[4]

8 Ym mis Rhagfyr 2025, penderfynodd Bwrdd QAA nad yw am fwrw ymlaen â chynlluniau i dreialu'r Diploma Rhyngwladol. Mae sail resymegol y penderfyniad hwn wedi ei hesbonio yn y ddogfen gysylltiedig 'Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot arfaethedig'.

9 Roedd gweithrediad y prosiect yn ddibynnol bob amser ar gymeradwyaeth gan gorff llywodraethu QAA a chynllun peilot ymarferol oedd yn dangos bod y cynllun yn ddichonadwy. Fodd bynnag, roedd adborth yr ymgynghoriad a'r sail tystiolaeth yn dangos na ellir cyflawni cynllun peilot dichonadwy, ac o ganlyniad, na ellid symud ymlaen â'r prosiect peilot na gweithrediad y prosiect.

## Trosolwg o'r dadansoddiad a wnaethpwyd

10 Derbyniodd QAA naw ymateb, wyth ohonynt gan Asiantaethau DMiAU ac un gan ddarparwr rhyngwladol.

11 Mae'r dadansoddiad wedi ei lunio i adlewyrchu chwe thema allweddol yr ymgynghoriad:

- Rôl a nod y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol
- Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol
- Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol
- Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma Rhyngwladol
- Marchnata'r Diploma Rhyngwladol
- Trefniadau pontio a gweithredu

12 Mae pob adran o'r dadansoddiad yn dilyn trefn gyson. Mae'r dull hwn yn helpu i ddangos sut mae adborth yr ymgynghoriad wedi derbyn ystyriaeth a sut y gallai hysbysu unrhyw ddatblygiad posibl yn y dyfodol.

- **Yr hyn a gynigwyd gennym** - Yn crynhoi'r cynnig a rannwyd gyda'r rhanddeiliaid.
- **Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr** - Yn cyflwyno'r adborth a gafwyd, gan dynnu sylw at themâu allweddol a meysydd lle cafwyd consensws neu bryder.
- **Goblygiadau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol** - Yn dadansoddi beth mae adborth yn ei olygu i bolisi, dichonoldeb a chamau nesaf posibl.
- **Argymhellion ymarferol** - Yn nodi awgrymiadau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth a allai dywys unrhyw waith yn y dyfodol.

13 Yn anochel, mae rhywfaint o ddyblygu pryderon ar draws nifer o themâu, gan adlewyrchu'r ffaith bod angen i bob adran sefyll ar ei phen ei hun fel dadansoddiad cytbwys.

[4] Mae manylion aelodaeth a chylchoedd gwaith y Pwyllgor RhThrMiAU a Bwrdd QAA i'w gweld ar wefan QAA ar: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-trefn-reoli

14 Am nad yw am fwrw ymlaen â'r prosiect, nid yw QAA wedi penderfynu beth yw ei safbwyntiau ar yr argymhellion penodol a godwyd. Fodd bynnag, gallai'r dadansoddiad a gynigir gynnig mewnwelediad a allai fod yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill sy'n gobeithio llunio neu weithredu cymhwyster rhyngwladol.

# Rôl a nod y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol

## Yr hyn a gynigwyd gennym

15 Diffiniwyd y Diploma Rhyngwladol gennym fel cymhwyster lefel 3 o addysg ôl-16 sy'n canolbwyntio'n bennaf ar alluogi i ddysgwyr sy'n oedolion (17 oed neu'n hŷn) ddysgu'r wybodaeth y maent ei hangen i fynd ymlaen i addysg uwch mewn maes astudio penodol. Mae modd cwblhau cyrsiau llawn amser o'r fath o fewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau Diploma Rhyngwladol, gall y myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn darparwr addysg uwch - a gallai'r astudiaeth hon fod ar gyfer gradd neu gymhwyster lefel uwch arall ar lefel 4 neu'n uwch.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

16 Cynigiodd yr ymatebwyr gymysgedd o gymorth eang, ceisiadau am eglurhad, a phryderon am agweddau o hygyrchedd, cynnydd a darpariaeth.

17 **Diffiniad o'r Diploma Rhyngwladol** - Roedd yr ymatebwyr yn eithaf croesawu'r diffiniad gyda'r fframio cadarnhaol i ddysgwyr sy'n oedolion. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen gwahaniaethu'r Diploma'n fwy eglur oddi wrth raglenni blwyddyn sylfaen.

18 **Gwahaniaethu oddi wrth ddarpariaeth addysg uwch ryngwladol arall** - Gofynnodd nifer fechan o'r ymatebwyr am well eglurhad o'r ffordd y mae'r Diploma Rhyngwladol yn wahanol i'r rhaglenni blwyddyn sylfaen, ac awgrymwyd y dylid atgyfnerthu trylwyredd academaidd a diffinio'r gynulleidfa darged. Roedd eraill yn fodlon â'r diffiniad fel yr oedd wedi ei ddrafftio.

19 **Llwybrau cynnydd** - Gofynnodd yr ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyrchfannau astudiaeth bellach tebygol, yn cynnwys y cwestiwn ai addysg uwch yn y DU, addysg drawswladol yn y DU neu addysg uwch mewn gwlad dramor fyddai'r cyrchfannau hynny. Gofynnodd nifer ohonynt i QAA gymryd rôl fwy gweithredol mewn cydnabod ymdrechion - er enghraifft, drwy flaenoriaethu gwledydd, hwyluso cytundebau cydnabod, neu, mewn un achos, rannu rhestr o'r prifysgolion sy'n derbyn y graddedigion.

20 **Y diben arfaethedig** - Roedd barn yr ymatebwyr yn amrywio. Roedd rhai'n dweud ei fod yn glir tra bo eraill yn gweld y geiriad yn ddryslyd - yn enwedig mewn perthynas â chyrchfannau astudiaeth bellach a rôl arfaethedig QAA mewn hyrwyddo'r Diploma y tu allan i'r DU. Nododd nifer o'r ymatebwyr y gallai dibynnu ar ariannu preifat ostwng y ffocws ar gefnogi oedolion a allai wynebu rhwystrau economaidd neu gymdeithasol, neu rwystrau eraill, i fynd i mewn i addysg.

21 **Y gynulleidfa darged** - Cwestiynodd ymatebwyr y rheswm am osod yr oedran isaf ar 17, gan nodi bod hynny'n wahanol i'r arferion yn y DU a'r ffaith y gallai achosi anfantais i ddysgwyr iau, rheiny sy'n byw mewn cymunedau gwledig neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu.

22 Hefyd, cafwyd sylwadau gan ymatebwyr am bwysigrwydd cynnal ethos Mynediad i AU o ffocysu ar oedolion.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

23 Byddai marchnata'n chwarae rôl hanfodol o ran sefydlu hunaniaeth pob cymhwyster newydd drwy gefnogi cydnabyddiaeth a magu hyder ymhlith y dysgwyr, y darparwyr a'r partneriaid rhyngwladol. Byddai gwybodaeth hyrwyddo glir a chyson yn hanfodol i wahaniaethu'r Diploma Rhyngwladol oddi wrth lwybrau cyfatebol, a'i osod yn effeithiol ar draws cyd-destun byd-eang amrywiol.

24 **Y diffiniad a'r gwahanolrwydd** - Yn rhan o unrhyw waith datblygu yn y dyfodol, byddai'n rhaid gwahaniaethu'n glir oddi wrth raglenni blwyddyn sylfaen, a chyfeirio at drylwyredd academaidd mewn lle amlwg, p'un a ydyw yn y diffiniad craidd neu mewn deunyddiau atodol.

25 **Cynnydd a chydnabyddiaeth** - Byddai'n rhaid i'r gwaith ganolbwyntio ar fapio'r llwybrau cynnydd tebygol gan hefyd gadw'r ymreolaeth sefydliadol. Byddai'n rhaid ymgysylltu â llywodraethau a chyrff cyllido yn y tymor hwy i fynd i'r afael â phryderon am hygyrchedd a dibyniaeth ar hunan-ariannu.

26 **Proffil demograffig y dysgwyr a'u parodrwydd** - Byddai'n rhaid i'r cynllun wahaniaethu'n glir rhwng gweithgareddau rheoleiddio a marchnata ac efallai y byddai angen rhoi ystyriaeth i'r trefnau cyllido cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â chymhwysedd ar sail oedran.

## Argymhellion ymarferol

27 Mae'r argymhellion a ganlyn yn amlinellu camau gweithredu i gryfhau eglurder, cydlyniant a hygyrchedd y Diploma Rhyngwladol.

**Y diffiniad a'r gwahanolrwydd**

- Dylid mireinio'r diffiniad, ond dim ond yn y mannau lle bo angen er mwyn cynnal aliniad â'r Diploma ar gyfer y DU a chryfhau'r eglurder yn y meysydd hynny y tynnwyd sylw atynt gan yr ymatebwyr, yn cynnwys y gwahaniaethu oddi wrth raglenni blwyddyn sylfaen.
- Ystyried a fyddai cyfeirio'n fwy eglur at drylwyredd academaidd yn cefnogi safle rhyngwladol.

**Cynnydd a chydnabyddiaeth**

- Egluro'r disgwyliadau o ran cynnydd yn well, yn cynnwys bod yn dryloyw ynghylch llwybrau cynnydd yn y DU a thramor.
- Archwilio sut y gallai QAA gefnogi Asiantaethau DMiAU mewn gweithgareddau cydnabod cyd-drefnus (e.e. blaenoriaethu gwledydd allweddol, hwyluso trafodaethau, neu rannu gwybodaeth ddangosol am y sefydliadau sy'n derbyn y graddedigion).
- Ystyried sut y gallai dibyniaeth ar hunan-ariannu neu ariannu'n breifat effeithio ar fynediad i oedolion sy'n wynebu rhwystrau economaidd neu gymdeithasol, neu rwystrau eraill, i ddysgu.
- Archwilio cyfleoedd i sefydlu partneriaethau tymor hwy gyda llywodraethau neu gyrff cyllido er mwyn ehangu mynediad.

**Proffil demograffig y dysgwyr a'u parodrwydd**

- Adolygu'r gofyniad oedran isaf er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi yn y DU a chynnal yr ethos dysgu oedolion.
- Darparu canllawiau i gefnogi Asiantaethau DMiAU a darparwyr wrth asesu parodrwydd y dysgwyr, yn arbennig os bydd eu profiad addysgol blaenorol yn amrywio.

# Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol

## Yr hyn a gynigwyd gennym

28 Ein cynnig oedd y dylai'r broses drwyddedu ddechrau trwy i Asiantaeth DMiAU gyflwyno datganiad o ddiddordeb sy'n nodi'r gwledydd targed, y darparwyr arfaethedig a'r Diplomâu arfaethedig, ac yn dilyn hynny y dylid cynnal trafodaethau cwmpasu anffurfiol gyda QAA i ddarganfod risgiau neu heriau posibl. Yna byddai Asiantaethau DMiAU yn cyflwyno cais llawn gan ddarparu cynllun manwl credadwy gyda thystiolaeth ategol y byddai QAA yn ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyflawn a'i fod yn alinio â'r Cynllun Cydnabod. Roeddem yn rhagweld cyfnod asesu o bedwar i chwe mis, y byddai ei ganlyniadau posibl yn cynnwys trwydded beilot o ddwy flynedd, trwydded lawn o dair neu bum mlynedd, neu wrthodiad.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

29 Darparodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o sylwadau am y cyfnod peilot arfaethedig, y gofynion o ran cymhwysedd, y prosesau ymgeisio, y strwythur ffioedd a'r materion gweithredol cysylltiedig. Roedd eu hadborth yn amlygu meysydd lle cafwyd cytundeb eang a materion oedd yn achosi pryder, ac roeddent yn cynnig ystyriaethau manwl am y goblygiadau ymarferol a rheoleiddiol wrth gyflwyno fframwaith trwyddedu rhyngwladol.

30 **Y cyfnod peilot** - Cafwyd sylwadau cymysg gan yr ymatebwyr ynghylch gwerth a dichonoldeb cyfnod peilot o ddwy flynedd. Roedd nifer ohonynt yn cwestiynu a fyddai'r amseriad yn caniatáu cylch darparu llawn, gan nodi bod cychwyn yn hwyr, ymholiadau'r Pwyllgor RhThrMiAU, neu resymau eraill dros oedi'n gallu byrhau'r ffrâm amser a chynyddu'r risg ariannol. Roedden nhw eisiau derbyn eglurhad ynglŷn ag ystyr y geiriad 'darpariaeth graddfa fechan', a sut y byddai QAA yn rheoli'r galw os byddai darparwr mawr yn dod yn rhan o'r broses yn gynnar. Nododd rhai ohonynt na fyddai alinio â threfn wedi'i seilio ar y flwyddyn academaidd yn y DU yn addas i bob gwlad. Er bod llawer ohonynt yn cefnogi dull gofalus, lle byddai'r risgiau wedi eu rheoli, roedden nhw'n pwysleisio'r angen am ganllawiau mwy eglur, cymorth cryfach i'r rheiny sy'n mabwysiadu'r cynllun yn gynnar, ac eglurder ynglŷn â phryd y byddai'r prosiect peilot yn cychwyn yn ffurfiol. Roedd eraill yn ystyried y cyfnod peilot yn rhywbeth dianghenraid neu'n rhy fyr i dracio cwblhad llawn y myfyrwyr.

31 **Y cymhwysedd i gael Trwydded Ryngwladol** - Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai Asiantaethau DMiAU ddangos hanes hir o weithredu'n llwyddiannus o dan drwydded ar gyfer y DU cyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer trwydded ryngwladol. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylent fod ag o leiaf bum mlynedd o brofiad i ddangos eu bod yn gallu rheoli'r risgiau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Er bod y mwyafrif yn cefnogi cymhwysedd eang mewn egwyddor, roedd rhai ohonynt yn holi a ddylid caniatáu i Asiantaethau DMiAU sydd heb lawer o brofiad o weithredu'n rhyngwladol symud ymlaen heb ddangos yn gyntaf bod ganddynt y gallu i weithio dramor. Roedd eraill yn cynnig cyfuno'r trefniadau trwyddedu ar gyfer y DU â'r trefniadau trwyddedu rhyngwladol er mwyn osgoi dyblygu.

32 **Y broses ymgeisio** - Roedd yr ymatebwyr yn aml yn disgrifio'r broses arfaethedig fel un or-gymhleth a beichus. Roedden nhw'n gofyn i QAA symleiddio'r gofynion gan hefyd gynnal cywirdeb rheoleiddiol ac awgrymu y dylid cynnig ceisiadau mewn camau, ceisiadau a wneir ar y cyd â phartneriaid mewn gwlad benodol, diffiniad mwy eglur o'r term 'cynllun credadwy', amserlenni cyhoeddedig, a chynlluniau eraill fel pwyntiau cyfeirio, megis dull Ofqual o gwmpasu ehangiad. Roedd y pryderon yn cynnwys: gofyn am gynllun ar gyfer gwlad benodol, gan gyfyngu Asiantaethau DMiAU i un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad yn ystod y cyfnod peilot, a'r cyfnod asesu o bedwar i chwe mis yr oedd rhai pobl yn teimlo ei fod yn rhy hir. Yn ogystal, cododd yr ymatebwyr gwestiynau ynglŷn â sicrhau cysondeb lle'r oedd mwy nag un Asiantaeth DMiAU yn gweithredu yn yr un wlad ac am rôl QAA o ran asesu'r effaith ar y farchnad leol.

33 **Y drefn ffioedd** - Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch y drefn ffioedd er mwyn galluogi cynllunio busnes. Roedden nhw'n gofyn am eglurhad ynglŷn â chostau uned fesul dysgwr, trothwyon ffioedd isaf, a goblygiadau ffioedd yn y tymor hwy y tu hwnt i'r cyfnod peilot. Roedd llawer ohonynt yn gofyn am sicrhad na fyddai ffioedd rhyngwladol yn cymryd lle neu'n chwyddo'r costau i Asiantaethau DMiAU yn y DU nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol. Argymhellodd rhai y dylid diogelu costau rhyngwladol. Holodd yr ymatebwyr am y costau cyffredinol a fyddai'n wynebu QAA yn ystod y cyfnod peilot; ac er bod rhai'n croesawu ymrwymiad QAA i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â'r prosiect peilot, dywedodd eraill y byddai'n rhaid i ffioedd sydd wedi eu cyfrifo ar sail nifer y dysgwyr fod yn fforddiadwy cyn iddyn nhw benderfynu cymryd rhan.

34 **Materion masnachol** - Gofynnodd yr ymatebwyr i QAA egluro sut y byddai'n asesu'r effaith ar ddarpariaeth leol sy'n bodoli'n barod heb effeithio ar y rheolaeth ar allu cystadleuol, a sut y byddai'n trin cynlluniau is-gontractio neu etholfreinio sy'n gyffredin mewn cyd-destunau rhyngwladol. Ceisiodd rhai ohonynt dawelwch meddwl y gellid oedi neu addasu trwyddedau os byddai'r amgylchiadau rheoleiddiol neu economaidd wedi newid mewn gwlad benodol yn ystod y cyfnod peilot. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y costau sy'n gysylltiedig â mynd i mewn i'r farchnad a chydymffurfio a gofynnwyd sut y byddai gwledydd yn cael eu dethol.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

35 O'u cymryd gyda'i gilydd, mae adborth yr ymatebwyr yn amlygu dymuniad clir i gael mwy o gydlyniad ymarferol yn y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau DMiAU i weithredu'n rhyngwladol. Mae sylwadau'r rhanddeiliaid yn pwyntio at y ffaith bod angen prosesau symlach a pharamedrau wedi'u diffinio'n dda er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu darpariaeth ryngwladol yn gredadwy ac yn rhwydd i'r Asiantaethau DMiAU.

36 **Cynllun y peilot a'r meini prawf llwyddo** - Byddai angen i drefniadau peilot yn y dyfodol ddiffinio'n fwy eglur beth yw darpariaeth 'graddfa fechan', cynnwys amserlen fanwl o brif ddigwyddiadau, a sefydlu dangosyddion llwyddiant fel nifer y myfyrwyr a pharodrwydd a chydymffurfiad y darparwyr.

37 **Rheoli amserlenni darparu ac unrhyw risgiau a wynebir** - Byddai angen i raglen beilot gynnig cyfle realistig i Asiantaethau DMiAU ddarparu'r Diploma Rhyngwladol, nid cymryd rhan mewn gweithgareddau paratoadol yn unig. Byddai angen lleihau risg ariannol lle mae oedi'n byrhau'r cyfnod peilot effeithiol.

38 **Y cymhwysedd i gael Trwydded Ryngwladol** - Byddai angen cynllun trwyddedu er mwyn cydbwyso dewisiadau'r sector (er enghraifft hanes o bum mlynedd o weithredu yn y DU) gydag amcanion yn ymwneud ag arloesi a chynhwysiant. Efallai y byddai gwerth mewn archwilio trefn drwyddedu gyfunol sy'n ymwneud â gweithgareddau y tu mewn a hefyd y tu allan i'r DU.

39 **Cymesuredd y broses ymgeisio** - Byddai angen symleiddio'r broses ymgeisio, o bosib drwy gynnig ceisiadau mewn camau, ceisiadau a wneir ar y cyd, amserlenni cadarnach a diffiniad mwy eglur o'r hyn yw 'cynllun credadwy'. Efallai y byddai angen adolygu cyfyngiadau arfaethedig fel un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad.

40 **Eglurder ynglŷn â'r ffioedd a'r costau** - I alluogi i Asiantaethau DMiAU gynllunio, byddai'n hanfodol bod yn gwbl eglur yn gynnar yn y broses am y ffi fesul myfyrwyr a threfniadau tymor hwy.

41 **Cynlluniau gweithredol a chynlluniau wrth gefn** - Byddai angen bod yn eglur ynglŷn â threfniadau is-gontractio ac etholfreinio a mecanweithiau ar gyfer oedi neu addasu trwyddedau mewn ymateb i newidiadau rheoleiddiol neu economaidd mewn gwlad benodol.

## Argymhellion ymarferol

42 Mae'r argymhellion a ganlyn yn nodi ffyrdd o wneud y cynllun trwyddedu rhyngwladol arfaethedig yn fwy dichonadwy a chyfraneddol.

**Cynllun y peilot a'r meini prawf llwyddo**

- Diffinio'r prosiect peilot yn fwy manwl gywir, gan gynnwys egluro'r pwynt cychwyn ffurfiol, ystyr y geiriad 'darpariaeth graddfa fechan', a metrigau llwyddiant clir.
- Ystyried a yw ffenestr o ddwy flynedd yn ddigonol ar gyfer gweithredu a chwblhau'r prosiect peilot.
- Darparu cymorth wedi'i strwythuro'n dda i gyfranogwyr cynnar, yn cynnwys canllawiau, rhestrau gwirio ac amserlennu pwyntiau cysylltu.

**Y cymhwysedd i gael Trwydded Ryngwladol**

- Archwilio a allai cynllun trwyddedu cyfunol ar gyfer gweithrediadau yn y DU a thramor leihau dyblygu.

**Cymesuredd y broses ymgeisio**

- Symleiddio'r broses ymgeisio drwy egluro disgwyliadau o ran tystiolaeth, cynnig ceisiadau mewn camau, a rhoi canllawiau mwy eglur ynglŷn â beth yw 'cynllun credadwy'.
- Adolygu cyfyngiadau a allai gyfyngu ar ddichonoldeb yn ystod y cyfnod peilot (e.e. un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad).
- Egluro i ba raddau y bydd QAA yn ystyried yr effaith ar y farchnad leol wrth adolygu ceisiadau.

**Eglurder ynglŷn â'r ffioedd a'r costau**

- Cyhoeddi fframwaith ffioedd cynnar eglur, sy'n cynnwys lefelau ffioedd dangosol wedi'u cyfrifo ar sail nifer y dysgwyr, trothwyon, a threfniadau ar ôl y cyfnod peilot.
- Ystyried diogelu costau rhyngwladol er mwyn osgoi croes-gymorthdalu o ffioedd yn y DU.

**Cynlluniau gweithredol a chynlluniau wrth gefn**

- Darparu canllawiau mwy eglur am ddulliau o is-gontractio ac etholfreinio'r ddarpariaeth sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin y tu allan i'r DU.
- Creu mecanweithiau sy'n caniatáu i drwyddedau gael eu hoedi neu eu haddasu os byddai'r amgylchiadau mewn gwlad benodol yn newid yn sylweddol.

# Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol

## Yr hyn a gynigwyd gennym

43 Er mwyn sicrhau trefniadau goruchwylio cymesur ond cadarn sy'n diogelu ansawdd, safonau ac enw da Mynediad i AU drwy'r byd i gyd, ein cynnig oedd y dylai Asiantaethau DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol ddilyn y Telerau Safonol presennol ar gyfer trwyddedu gweithrediadau Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU yn y DU, ochr yn ochr â chyfres newydd o Delerau Safonol rhyngwladol, a chyfres baralel o Amodau Rhyngwladol Mynediad i AU.

44 Esboniwyd gennym y byddai'r trefniadau rhyngwladol yn adlewyrchu'r fframwaith ar gyfer y DU yn agos er mwyn lleihau'r baich, gan hefyd gyflwyno gofynion ychwanegol i adlewyrchu'r risgiau uwch sy'n gysylltiedig â darpariaeth ryngwladol - er enghraifft, datganiadau cydymffurfiad a threfniadau monitro ar wahân ar gyfer gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r DU, a darpariaethau sy'n caniatáu i QAA ddefnyddio trefnau monitro cyffredinol neu fanylach lle mae risgiau'n codi.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

45 Roedd yr adborth yn adlewyrchu cyfres eang a manwl o bryderon. Cyfeiriodd y cyfranwyr yn gyson at feysydd lle'r oedd y fframwaith yn ymddangos yn rhy gymhleth neu'n feichus yn weinyddol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am ganllawiau mwy eglur, prosesau symlach ac aliniad mwy cydlynol rhwng y disgwyliadau ar gyfer y DU a'r disgwyliadau rhyngwladol. Roedd llawer ohonynt yn teimlo bod y prosesau sicrhau ansawdd cyfredol eisoes yn caniatáu i Asiantaethau DMiAU reoli risgiau'n effeithiol a holi a oedd angen trefniadau ychwanegol. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn cynrychioli galw ar y cyd am gynllun sy'n fwy penodol, eglur a manwl cyn unrhyw ddatblygiad pellach.

46 **Cymhwyso'r Amodau Mynediad i AU** - Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddor gweithredu Amodau rhyngwladol, roedd llawer ohonynt yn dadlau y gellid cyfuno'r Amodau ar gyfer y DU a'r Amodau rhyngwladol er mwyn osgoi dyblygu. Roedd nifer ohonynt yn barnu bod yr Amodau arfaethedig yn rhy gymhleth, yn ddyblygol neu'n anghyson â'r ffordd y mae cyrff rheoleiddio eraill yn gweithredu.

47 **Y trefniadau monitro** - Cododd yr ymatebwyr bryderon y byddai'r trefniadau monitro arfaethedig yn cyflwyno llwyth gwaith sylweddol ychwanegol, yn enwedig os byddai'r trefniadau monitro y tu mewn a'r tu allan i'r DU wedi eu gwahanu. Gofynnodd yr ymatebwyr i'r monitro fod yn waith pen desg yn bennaf er mwyn lleihau costau, ac i'r trefniadau fod yn eglur ynghylch digwyddiadau hysbysadwy, gofynion cyfieithu a dichonolrwydd casglu data am gyrchfannau'r ymadawyr ar lefel ryngwladol.

48 **Ymyriadau rheoleiddio** - Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod y prosesau ymyrryd yn aneglur a bod ganddynt y potensial i fod yn anghymesur. Roedden nhw'n gofyn am brotocolau mwy eglur a rhesymol, wedi eu halinio â'r dull ar gyfer y DU, lle bo'n bosibl. Mewn sefyllfaoedd lle byddai'n rhaid talu am ymchwiliadau, gofynnodd yr ymatebwyr am gyfyngiad ar atebolrwydd, ffioedd cymesur a rhagdybiaeth am ddulliau pen desg, gan osgoi costau teithio a llety oni bai eu bod o dan amgylchiadau eithriadol y cytunwyd arnynt.

49 **Baich rheoleiddiol** - Yn ogystal â phryderon am gymhlethdod, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r fframwaith arfaethedig yn gwneud cynllunio busnes yn anodd, oherwydd y nifer o ddisgwyliadau a phrosesau newydd fyddai'n cael eu cyflwyno. Lleisiwyd pryder sylweddol hefyd am yr effaith bosibl ar weithrediadau yn y DU, gydag ymatebwyr yn nodi y gallai cynnydd yn y galw am adnoddau a chapasiti dynnu sylw i ffwrdd oddi wrth y system sydd ar waith yn barod yn y DU.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

50 Ar y cyfan, mae adborth yr ymatebwyr yn tanlinellu'r angen am gymesuredd, eglurder a chydlyniad er mwyn sicrhau nad yw gweithgareddau rhyngwladol yn tanseilio sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn y DU.

51 **Y fframwaith rheoleiddio** - Yn rhan o'r gwaith datblygu yn y dyfodol, efallai y bydd angen cyfuno gofynion rheoleiddiol er mwyn osgoi systemau paralel y tu mewn a'r tu allan i'r DU, gan sicrhau aliniad a chymesuredd.

52 **Monitro a darparu tystiolaeth** - Byddai angen i ddisgwyliadau o ran monitro fod yn gymesur, wedi eu cwmpasu'n glir ac yn realistig am argaeledd data rhyngwladol. Dylid diffinio dogfennaeth a pharamedrau ar gyfer digwyddiadau hysbysadwy'n dda.

53 **Ymyriadau rheoleiddio** - Byddai angen i'r fframwaith ddarparu diffiniadau manwl gywir ynglŷn â phryd a sut y mae ymyriadau'n berthnasol y tu allan i'r DU, gan wahaniaethu rhwng goruchwyliaeth ddatblygiadol a sancsiynau ffurfiol. Efallai y bydd angen i brotocolau ymchwilio roi rhesymau am heriau ar draws gwahanol awdurdodaethau.

54 **Diogelu'r ddarpariaeth yn y DU** - Byddai angen i weithgareddau rhyngwladol barhau wedi eu gwahanu'n eglur oddi wrth weithrediadau yn y DU mewn perthynas â chyfrifoldebau, costau a chapasiti, er mwyn cynnal sefydlogrwydd y system ar gyfer y DU.

55 **Dichonoldeb a chynllunio busnes** - Byddai angen cael amserlenni, disgwyliadau a threfnau ffioedd clir i gefnogi gwaith cynllunio Asiantaethau DMiAU. Byddai'n hanfodol cael prosesau symlach a threfnau costau eglur er mwyn asesu dichonoldeb cynllun.

## Argymhellion ymarferol

56 Mae'r argymhellion a ganlyn yn canolbwyntio ar greu fframwaith rheoleiddio mwy eglur a chymesur ar gyfer Asiantaethau DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol.

### Y fframwaith rheoleiddio

- Cyfuno'r gofynion rheoleiddiol y tu mewn a'r tu allan i'r DU lle bo modd i leihau dyblygiad.
- Rhoi sail resymegol glir ar gyfer unrhyw ofynion ychwanegol sy'n benodol berthnasol i weithredu'n rhyngwladol.
- Sicrhau aliniad ag arferion sefydledig ar draws cyrff rheoleiddio cyfatebol.

### Monitro a darparu tystiolaeth

- Blaenoriaethu dull monitro sy'n gymesur, wedi ei gwmpasu'n glir ac sy'n waith pen desg yn bennaf.
- Cyhoeddi canllawiau safonol am ddisgwyliadau o ran tystiolaeth, gofynion cyfieithu a digwyddiadau hysbysadwy.
- Ail asesu disgwyliadau o ran data am gyrchfannau rhyngwladol yr ymadawyr ac ystyried opsiynau llai manwl lle bo'n briodol.

### Ymyriadau rheoleiddio

- Egluro'r ffin rhwng goruchwyliaeth ddatblygiadol a sancsiynau ffurfiol, gan sicrhau bod prosesau ymyrryd yn gymesur ac yn eglur.
- Sefydlu egwyddorion ar gyfer adfer costau, cyfyngu ar ffioedd ymchwilio ac osgoi costau sy'n gysylltiedig â theithio, ac eithrio mewn achosion eithriadol.
- Ystyried sut y bydd prosesau ymchwilio'n gweithredu mewn cyd-destun rhyngwladol.

### Diogelu'r ddarpariaeth yn y DU

- Cynnal gwahaniad clir rhwng gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r DU er mwyn osgoi dargyfeirio adnoddau neu gapasiti rheoleiddio.

**Dichonoldeb a chynllunio busnes**

- Cyhoeddi trefnau ffioedd, amserlenni a gofynion ymgeisio'n gynnar er mwyn helpu i gynllunio'n effeithiol.
- Lleihau'r llwyth gwaith biwrocrataidd wrth wneud cais am drwydded, gan gynnwys cynnig opsiynau i wneud ceisiadau'n gyfnodol neu mewn camau.
- Sicrhau bod amserlenni'n osgoi gwrthdaro â'r cyfnodau mwyaf prysur yn y DU (e.e. cylchoedd ail-drwyddedu).

# Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma Rhyngwladol

## Yr hyn a gynigwyd gennym

57 Yr hyn a gynigiwyd gennym oedd dal y Diploma Rhyngwladol yn gwbl gyfartal â chymhwyster lefel 3 yn y DU trwy ei alinio â fframweithiau disgrifyddion lefel cenedlaethol a Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio sy'n bodoli'n barod. Byddai gofyn i'r Asiantaethau DMiAU sicrhau bod Diplomâu Rhyngwladol yn ateb disgwyliadau lefel 3 yn y DU o ran gwybodaeth, sgiliau a galluoedd academaidd, er mwyn cefnogi cyfleoedd i dderbyn cydnabyddiaeth a symud ymlaen.

58 Roeddem yn cynnig y dylid asesu gallu'r dysgwyr yn y Saesneg wrth gofrestru er mwyn sicrhau y byddant yn gallu cwblhau'r cwrs, ac y dylent allu cyrraedd lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd [Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)][5] erbyn cwblhau'r cwrs, er mwyn ateb y disgwyliadau ar gyfer cael mynediad i addysg uwch yn y DU.

59 Roedd y ddarpariaeth i fod yn un wyneb yn wyneb, gyda chaniatâd i wneud 20 i 40% o'r ddarpariaeth yn ddysgu cyfunol lle byddai hynny wedi ei gyfiawnhau'n addysgol. Hysbyswyd y trothwyon hyn gan Bolisi Dulliau Darparu o Bell y Swyddfa Gartref.[6] Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai caniatâd i gynnig darpariaeth o bell yn llwyr.

60 Roedd Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio Mynediad i AU i fod i gael eu gweithredu heb eu newid er mwyn sicrhau cysondeb, cydraddoldeb ac ansawdd ar draws yr holl gyd-destunau rhyngwladol.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

61 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at gefnogi gofynion clir o ran sgiliau Saesneg, pryder sylweddol am gyfyngiadau ar ddulliau darparu ar-lein, ardystiad cryf i Fanyleb y Diploma sy'n bodoli'n barod, a chymeradwyaeth eang o'r drefn raddio gyfredol. Hefyd, ceisiodd yr ymatebwyr ganllawiau mwy eglur ac ystyriaeth o anghenion amrywiol y dysgwyr.

62 **Gofynion o ran y Saesneg** - Cefnogodd yr ymatebwyr y gofyniad i'r dysgwyr gyrraedd lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd erbyn iddyn nhw dderbyn eu dyfarniad, gan gydnabod mor bwysig ydyw er mwyn cael mynediad llwyddiannus i addysg uwch. Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer o Asiantaethau DMiAU mai darparwyr - nid yr Asiantaethau DMiAU - fyddai'n gyfrifol am asesu gallu'r dysgwyr yn y Saesneg, ac y dylai'r geiriad gael ei

[5] Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd [*Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)*], sydd ar gael ar: www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages

[6] *Canllawiau Fisâu a Mewnfudo'r DU am ddyletswyddau'r noddwyr*, sydd ar gael ar: www.gov.uk/government/publications/student-sponsor-guidance/sponsorship-duties-accessible#courses

adolygu yn unol â hynny. Gofynnodd yr ymatebwyr hefyd am ganllawiau mwy eglur am y mathau o dystiolaeth sy'n dderbyniol i ddangos cyrhaeddiad lefel B2 gan gymell ystyriaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau, a/neu ddysgwyr sydd â chefndiroedd dwyieithog.

63 **Dulliau darparu o bell neu gyfunol** - Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen diffiniadau clir a chyson o'r dulliau darparu - yn benodol, y gwahaniaethau rhwng dysgu o bell a dysgu cydamserol ac anghydamserol - yn ogystal ag eglurhad ynglŷn ag 'oriau a addysgir' a 'gwerth addysgol amlwg'. Roedd llawer ohonynt yn dadlau bod cyfyngiad o 20 i 40% ar ddarpariaeth ar-lein yn rhy gyfyngol ac nad yw'n adlewyrchu'r arferion cyfredol. Roedden nhw'n pwysleisio y gallai cyfyngiadau anhyblyg roi dysgwyr penodol dan anfantais, yn cynnwys dysgwyr mewn ardaloedd gwledig, dysgwyr ag anableddau a'r rhai sy'n methu teithio'n rheolaidd. Tynnodd Asiantaethau DMiAU hefyd sylw at y ffaith bod addysgu ar-lein cydamserol o safon uchel yn gallu bod yn gyfatebol yn addysgol â darpariaeth wyneb yn wyneb.

64 **Manyleb y Diploma** - Roedd yr ymatebwyr yn hynod gadarnhaol ynglŷn â defnyddio Manyleb y Diploma Mynediad i AU sy'n bodoli'n barod, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cysondeb a dilysrwydd y ddarpariaeth i gyd yn y DU a thramor. Fodd bynnag, nododd nifer o'r ymatebwyr y bydd angen gosod pethau yn eu cyd-destun lleol o bosib (e.e. astudiaethau achos, esiamplau) a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â sut y byddai aliniad â'r manylebau'n cael ei feirniadu mewn achosion lle mae disgrifyddion lefel 3 yn y DU a fframweithiau lleol yn dargyfeirio neu'n gwrthdaro.

65 **Y Cynllun Graddio** - Cefnogodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gadw'r drefn raddio gyfredol (sef 'wedi pasio'/'teilyngdod'/'rhagoriaeth') ond gan ofyn am hyfforddiant ychwanegol i diwtoriaid a chanllawiau safoni ar gyfer cyd-destunau rhyngwladol.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

66 Os byddai gwaith yn ail gychwyn ar y Diploma Rhyngwladol, byddai angen i'r gwaith gydbwyso eglurder, cysondeb a chymesuredd. Byddai angen rhoi sylw i'r meysydd a ganlyn:

67 **Gofynion o ran y Saesneg** - Yn rhan o waith datblygu yn y dyfodol, byddai'n rhaid egluro cyfrifoldebau, gan sicrhau bod y geiriad yn cydnabod mai'r darparwyr - nid yr Asiantaethau DMiAU - sy'n asesu gallu'r dysgwyr yn y Saesneg. Byddai arweiniad clir ynglŷn â pha dystiolaeth sy'n dderbyniol i ddangos cyrhaeddiad B2, ac ystyriaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu gefndiroedd dwyieithog, yn hanfodol i sicrhau cysondeb a thegwch ar lefel ryngwladol.

68 **Dulliau darparu o bell neu gyfunol** - Mae adborth cryf yn dangos bod angen ailystyried cyfyngiadau llym ar y gyfran o addysgu ar-lein. Efallai y byddai'n rhaid cael dull mwy hyblyg sy'n ystyried risgiau er mwyn osgoi achosi anfantais i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig, anghydraddoldeb wrth ddyblygu, neu ddiffyg aliniad â'r arferion sy'n datblygu yn y DU. Byddai diffiniadau manwl o ddulliau darparu mewn gwledydd penodol yn cefnogi eglurder ac yn osgoi dehongli anghyson.

69 **Manyleb y Diploma** - Mae cadw manyleb gyfunol ar gyfer y DU yn cefnogi cysondeb, ond efallai y bydd gofyn i QAA ddarparu canllawiau mwy eglur am ymdrin â threfniadau yn eu cyd-destun lleol, yn ogystal â chael fframwaith ar gyfer datrys amrywiadau rhwng disgrifyddion lefel 3 yn y DU a fframweithiau mewn gwledydd penodol.

70 **Y Cynllun Graddio** - Efallai y bydd angen hyfforddiant ychwanegol i diwtoriaid ynghyd â chanllawiau am safoni a threfnau sicrhau ansawdd er mwyn osgoi sefyllfa lle mae disgrifyddion graddau'n cael eu dehongli'n anghyson mewn gwahanol amgylcheddau diwylliannol neu addysgol.

## Argymhellion ymarferol

71 Nod yr argymhellion a ganlyn yw gwella eglurder, cysondeb a hyblygrwydd y ddarpariaeth Mynediad i AU mewn cyd-destunau rhyngwladol.

**Gofynion o ran y Saesneg**

- Rhoi arweiniad clir ynglŷn â pha dystiolaeth sy'n dderbyniol i ddangos cyrhaeddiad B2 a sut y dylid ei gwirio.
- Egluro y dylai Asiantaethau DMiAU oruchwylio prosesau eu darparwyr ond na ddylent asesu gallu'r dysgwyr yn y Saesneg yn uniongyrchol.
- Ystyried addasiadau rhesymol i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu gefndiroedd addysgol dwyieithog.

**Dulliau darparu o bell neu gyfunol**

- Amnewid cyfyngiadau sefydlog ar ddarparu ar-lein am ddull hyblyg lle mae'r risgiau wedi eu rheoli, gan ganiatáu i Asiantaethau DMiAU gyfiawnhau cyfrannau uwch lle bo'n briodol.
- Cyhoeddi diffiniadau clir o ddulliau darparu cydamserol/anghydamserol, dysgu o bell, dysgu cyfunol a 'gwerth addysgol amlwg'.
- Sicrhau nad yw'r gofynion o ran dulliau darparu'n eithrio'n anfwriadol y dysgwyr hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu sy'n ddysgwyr difreintiedig.
- Sicrhau bod disgwyliadau o ran sicrhau ansawdd yn diogelu dilysrwydd y cymhwyster heb gyfyngu ar gynlluniau darparu arloesol.

**Manyleb y Diploma**

- Cynhyrchu canllawiau ar roi'r gofynion yn eu cyd-destun priodol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r DU, yn cynnwys sut i addasu esiamplau gan sicrhau cydraddoldeb â'r manylebau ar yr un pryd.
- Egluro sut y dylid datrys gwrthdaro rhwng disgrifyddion lefel 3 yn y DU a fframweithiau lleol.

**Y Cynllun Graddio**

- Darparu defnyddiau ar gyfer hyfforddi tiwtoriaid a meini prawf safoni sy'n benodol berthnasol i ddarpariaeth ryngwladol.
- Cynnig esiamplau neu ganllawiau cymharol i gefnogi'r gwaith o ddehongli graddau mewn ffordd gyson ar draws cyd-destun diwylliannol amrywiol.

# Marchnata'r Diploma Rhyngwladol

## Yr hyn a gynigwyd gennym

72 Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd ymestyn Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifyddion Pwnc i Ddiplomâu Rhyngwladol fel bod Asiantaethau DMiAU yn gallu dangos llwybrau cynnydd cydnabyddedig yn eglur i'r myfyrwyr, gan sicrhau ar yr un pryd bod gwybodaeth eglur ar gael ynglŷn â lle mae pob cymhwyster yn cael ei dderbyn. Roedd hefyd yn tynnu sylw at alw byd-eang cryf am gyrsiau mewn meysydd astudio sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac roedd yn cefnogi cynnig Diplomâu Rhyngwladol sy'n cydymffurfio mewn Meddygaeth, Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd. Yn ogystal, roedd y cynigion yn disgrifio camau i amddiffyn eiddo deallusol QAA drwy gofrestru nodau masnach rhyngwladol a gofyn i Asiantaethau DMiAU a darparwyr eu defnyddio'n briodol. Nod y camau gweithredu hyn oedd amddiffyn y brand, rhoi eglurhad i'r rhanddeiliaid, a chynnal hyder yn ansawdd y Diploma Rhyngwladol.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

73 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid ei bod hi'n bwysig sicrhau amlygrwydd byd-eang, ac eglurder y cynnig gwerth, a sicrhau bod gwybodaeth hyrwyddo'n gydlynol ar draws y marchnadoedd. Roedden nhw hefyd eisiau arweiniad mwy eglur am rôl QAA o ran hyrwyddo a sicrhau cydnabyddiaeth drwy'r byd i gyd, gan amlygu'r ffaith bod angen cael trefn frandio gyson a chyfathrebu cyd-drefnus i gefnogi hygrededd a thwf y cymhwyster.

74 **Y cynnig gwerth a'r gwahaniaethu yn y farchnad** - Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen disgrifio cynnig gwerth y Diploma'n fwy eglur. Er bod y Diploma Rhyngwladol yn cynnig potensial sylweddol i fod yn llwybr arall i mewn i addysg uwch, mae'n rhaid i'w nodau a'i fanteision gael eu cyfathrebu'n fwy eglur y tu allan i'r DU. Roedden nhw'n pwysleisio'r ffaith ei bod hi'n bwysig gwahaniaethu'r Diploma oddi wrth Lefelau A, rhaglenni blwyddyn sylfaen a rhaglenni lefel 3 eraill, yn enwedig lle mae fframweithiau cymwysterau'n amrywio. Ychwanegodd un o'r ymatebwyr y dylai gwybodaeth hyrwyddo amlygu hyblygrwydd, effeithiolrwydd o ran costau a llwybrau cynnydd clir, yn enwedig i ddysgwyr sy'n ariannu eu hastudiaethau eu hunain, er mwyn sicrhau bod y Diploma'n cael ei gydnabod fel opsiwn credadwy.

75 **Rôl ryngwladol QAA a'i chymorth i'r sector** - Hefyd, ceisiodd yr ymatebwyr eglurhad ynglŷn â rôl QAA o ran hyrwyddo'r Diploma y tu allan i'r DU. Roedd rhai'n croesawu arwyddion o ddull mwy rhagweithiol, tra bo eraill yn ansicr a oedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn ynteu ddyhead sy'n dibynnu ar gapasiti. Roedden nhw'n gofyn am wybodaeth fwy eglur ynglŷn â sut y byddai QAA yn blaenoriaethu ymgysylltiad â gwledydd a sefydliadau, a sut y gallai gweithgareddau cydnabod cyd-drefnus gefnogi gwaith hyrwyddo Asiantaethau DMiAU.

76 **Alinio gwaith cynllunio a gwaith hyrwyddo** - Nododd yr ymatebwyr fod Mynediad i AU yn anghyfarwydd mewn nifer fawr o wledydd tramor, ac y gallai gwybodaeth hyrwyddo anghyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU achosi dryswch neu danseilio hygrededd y Diploma. Awgrymodd nifer y gallai QAA ddarparu canllawiau mwy eglur am y drefn frandio, y derminoleg a'r wybodaeth hyrwyddo er mwyn cefnogi cyfathrebu cydlynol.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

77 Mae'r goblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn amlygu'r angen am strategaeth gydlynol ar gyfer marchnata y tu allan i'r DU, am gynnig gwerth sydd wedi ei ddiffinio'n glir, ac am fwy o eglurder ynglŷn â rôl QAA. Pe bai'r gwaith o ddatblygu cymhwyster o'r fath yn cael ei ailddechrau, byddai hi'n hollbwysig sicrhau bod cynllun y Diploma Rhyngwladol, y dull o'i ddarparu a'r wybodaeth hyrwyddo wedi eu halinio, er mwyn sicrhau hyder a gwahanolrwydd a hwyluso twf cynaliadwy ledled y byd.

78 **Y cynnig gwerth a'r gwahaniaethu yn y farchnad** - Bydd cynnig gwerth clir yn hanfodol ar gyfer sefydlu'r Diploma Rhyngwladol fel cymhwyster sydd â nodweddion arbennig o fewn tirlun llwybrau rhyngwladol gorlawn. Os na fydd ei safle mewn perthynas â Lefelau A, rhaglenni blwyddyn sylfaen a llwybrau paratoadol eraill wedi ei ddisgrifio'n eglur, gallai roi'r argraff nad yw'r Diploma'n ddigon gwahanol a phenodol, a byddai hynny'n tanseilio hunaniaeth ei frand. Gallai hynny achosi heriau wrth sicrhau cydnabyddiaeth gan lywodraethau, lleihau hyder ymhlith y sefydliadau partner, a chyfyngu ar allu'r Asiantaethau DMiAU i ddatblygu cyflenwad cynaliadwy o ymgeiswyr.

79 **Rôl ryngwladol QAA a'i chymorth i'r sector** - Mae ansicrwydd ynglŷn â chwmpas tebygol cyfranogaeth QAA yn y gwaith o hybu ymwybyddiaeth yn fyd-eang yn peri goblygiadau ymarferol i'r sector. Os byddai QAA yn cymryd rôl gyfyngedig neu adweithiol, gallai hynny olygu nad oes lefel gyson o gymorth ar gael i Asiantaethau DMiAU, yn enwedig mewn gwledydd lle mae diffyg rhwydweithiau neu gapasiti. Byddai rôl fwy rhagweithiol a chyd-drefnus yn galw am gymryd camau pwrpasol i ddarparu adnoddau, cynllunio strategol a blaenoriaethu er mwyn sicrhau presenoldeb cyson ar y llwyfan byd-eang ac ymgysylltiad effeithiol â'r sector.

80 **Alinio gwaith cynllunio a gwaith hyrwyddo** - Byddai marchnata effeithiol y tu allan i'r DU yn dibynnu ar alinio gwybodaeth hyrwyddo i'r cyhoedd â threfn fewnol y Diploma, y dull o'i reoleiddio a'r llwybrau cynnydd arfaethedig. Gallai unrhyw amwysedd neu gyfyngiadau tebygol yn y cynllun achosi diffyg cysylltiad rhwng y wybodaeth hyrwyddo a'r gweithrediad go iawn, a gallai hyn danseilio hyder pobl, gan amharu ar drefniadau i'w fabwysiadu ar y dechrau a chymhlethu'r twf byd-eang yn y tymor hir.

81 **Rôl asiantau recriwtio** - Er na chafwyd unrhyw sylwadau gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad sy'n ymwneud yn benodol â rôl yr asiantau recriwtio, dylai unrhyw waith datblygu yn y dyfodol ystyried a ddylid caniatáu defnyddio asiantau o'r fath, a pha drefnau diogelu fyddai'n ofynnol. Dylai pob cynllun gynnwys trefnau ar gyfer amddiffyn hawliau'r defnyddwyr i sicrhau y rhoddir gwybodaeth gywir, eglur a diduedd i'r dysgwyr.

## Argymhellion ymarferol

82 Mae'r argymhellion a ganlyn yn amlinellu ffyrdd o sicrhau amlygrwydd, cydlyniant a dichonoldeb y Diploma Rhyngwladol drwy'r byd i gyd.

#### Y cynnig gwerth a'r gwahaniaethu yn y farchnad

- Datblygu cynnig gwerth clir a pherthnasol yn fyd-eang sy'n egluro'r ffordd y mae'r Diploma Mynediad i AU yn wahanol i Lefelau A, rhaglenni blwyddyn sylfaen a llwybrau lefel 3 eraill.
- Pwysleisio nodweddion gwahaniaethol megis hyblygrwydd, fforddiadwyedd, mynediad cyfartal a chyfleoedd i symud ymlaen.
- Darparu canllawiau hyrwyddo a brandio cyson - yn cynnwys cysondeb mewn terminoleg, logos a disgrifyddion cymhwyster - er mwyn sicrhau cyfathrebu cydlynol ar draws yr Asiantaethau DMiAU a marchnadoedd newydd.

#### Rôl ryngwladol QAA a'i chymorth i'r sector

- Egluro cwmpas tebygol cyfranogaeth QAA yn y gwaith hyrwyddo byd-eang, gan gynnwys esbonio a fydd yn ymgysylltu â llywodraethau a chyrff cyllido'n uniongyrchol.
- Amlinellu ffyrdd posibl o flaenoriaethu a thargedu gwledydd neu ranbarthau penodol.
- Cynnig deunyddiau cefnogol i'r sector cyfan - megis deunyddiau briffio am farchnadoedd penodol, templedi, neu grynodebau o gytundebau cydnabod - i helpu Asiantaethau DMiAU i alinio eu gwaith allgymorth â'u gweithgareddau ymgysylltu.

#### Alinio'r cynllun â'r cyfyngiadau

- Adolygu'r ymgysylltiad rhwng rheolau darparu (e.e. cyfyngiadau ar ddysgu ar-lein, gofynion o ran cymhwysedd, llwybrau cynnydd) ac amcanion marchnata byd-eang.
- Sicrhau nad yw fframweithiau gweithredol yn cyfyngu'n anfwriadol ar atyniad, hygyrchedd neu ddichonoldeb y Diploma mewn marchnadoedd allweddol.

#### Defnyddio asiantau recriwtio

- Gweithredu safonau clir, disgwyliadau o ran eglurder a threfniadau goruchwylio er mwyn sicrhau y byddai unrhyw asiantau recriwtio a ddefnyddir yn rhoi gwybodaeth gywir a diduedd i'r dysgwyr, a bod y dysgwyr yn cael eu diogelu rhag cymhellion ariannol neu ffioedd cudd.
- Cyflwyno trefnau cwyno hygyrch i ddysgwyr sy'n ceisio cyfiawnder fel bod modd iddynt godi pryderon, ceisio datrysiad, a chael eu diogelu rhag arferion camarweiniol neu annheg.

# Trefniadau pontio a gweithredu

## Yr hyn a gynigwyd gennym

83 Yn yr ymgynghoriad, disgrifiwyd cyfnod peilot o ddwy flynedd a fyddai'n cychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26, pan fyddai Asiantaethau DMiAU cyfredol yn cael eu gwahodd i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb ac, os byddant yn llwyddiannus, wneud ceisiadau llawn wedyn. Nodwyd y byddai QAA yn monitro'r trwyddedau rhyngwladol drwy gydol y cyfnod peilot ac yn casglu adborth i hysbysu gwerthusiad terfynol. Wedi i'r prosiect peilot ddod i ben, y bwriad oedd bod Asiantaethau DMiAU cyfredol yn dod yn gymwys i wneud cais am drwydded ryngwladol lawn, ond byddai Asiantaethau DMiAU newydd sy'n ymuno â'r broses yn ddiweddarach yn mynd drwy eu cyfnod peilot o ddwy flynedd eu hunain.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym gan yr ymatebwyr

84 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi prosiect peilot mewn egwyddor, ond codwyd pryderon am ymarferoldeb ei gweithredu. Roedden nhw'n pwysleisio bod angen disgwyliadau mwy eglur ac amserlenni mwy cydlynol, yn ogystal â chynllun sydd wedi ei alinio'n well â threfniadau trwyddedu rhyngwladol hirdymor.

85 **Cynllun a nod y prosiect peilot** - Nododd yr ymatebwyr fod elfennau o'r cynllun peilot, megis trwyddedau ar gyfer gwledydd penodol, yn wahanol i'r cynllun hirdymor arfaethedig, ac y gallai hynny gyfyngu ar werth y prosiect peilot o ran paratoi Asiantaethau DMiAU ar gyfer gweithrediad yn y pen draw.

86 **Amseru a dilyniannu** - Cododd yr ymatebwyr bryderon am amseriad y prosiect peilot. Roedden nhw'n nodi eu bod yn ansicr ynglŷn â dyddiad cychwyn ffurfiol y cyfnod o ddwy flynedd, a rhybuddiwyd y gallai unrhyw oedi fyrhau'r amser a fyddai ar gael i gynnal y prosiect. Nododd yr ymatebwyr y gallai amserlenni ar gyfer llunio cwricwla a chynllunio adnoddau staffio ohirio'r rhan fwyaf o'r addysgu i'r ail flwyddyn, a gofynnwyd am fwy o eglurder ynglŷn â sut y byddai'r gwaith adolygu a gwerthuso'n cael ei amserlennu.

87 **Y trefnau asesu a'u cymesuredd** - Gofynnodd yr ymatebwyr i QAA ddiffinio meini prawf llwyddo ar gyfer y prosiect peilot, megis y deilliannau dysgu a ddisgwylir gan y myfyrwyr neu drothwyon cydymffurfiad, a rhoi arweiniad ynglŷn â beth fyddai'n gynllun 'credadwy'. Roedden nhw'n gofyn am eglurhad i esbonio a fyddai cyfranogiad yn y prosiect peilot yn cynnig unrhyw fantais wrth wneud cais am drwydded ryngwladol yn y dyfodol, a gofynnwyd am fwy o eglurder ynglŷn ag unrhyw gyfyngiadau ar y nifer o wledydd neu Ddiplomâu y gallai Asiantaethau DMiAU eu cynnig.

## Goblygiadau ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol

88 Mae'r ystyriaethau a ganlyn yn amlinellu'r ffactorau allweddol a fyddai angen sylw.

89 **Cynllun a nod y prosiect peilot** - Byddai angen i unrhyw brosiect peilot yn y dyfodol gyfateb yn agosach â'r cynllun trwyddedu hirdymor er mwyn osgoi aneffeithiolrwydd gweithredol a hwyluso trosglwyddo'n fwy esmwyth o weithgaredd peilot i weithrediad llawn.

90 **Amseru a dilyniannu** - Byddai hi'n hanfodol datblygu amserlen weithredu gydlynol sy'n cyfateb â chapasiti QAA a chylchoedd cynllunio'r Asiantaethau DMiAU - yn ogystal â gosod cerrig milltir clir ar gyfer darparu, monitro a gwerthuso cyrsiau.

91 **Y trefnau asesu a'u cymesuredd** - Byddai hi'n hanfodol sefydlu meini prawf llwyddo clir, prosesau asesu wedi'u symleiddio a gofynion gweinyddol cymesur er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu cyrsiau'n effeithiol.

## Argymhellion ymarferol

92 Mae'r argymhellion a ganlyn yn amlygu'r prif amodau sy'n angenrheidiol i gefnogi unrhyw brosiect peilot yn y dyfodol.

**Cynllun a nod y prosiect peilot**

- Alinio unrhyw gynllun peilot wedi'i adnewyddu â'r fframwaith trwyddedu rhyngwladol hirdymor er mwyn sicrhau datblygiad graddedig a chysondeb gweithredol.
- Symleiddio nodweddion y cynllun ac egluro'r cyfrifoldebau er mwyn hwyluso gweithrediad mwy esmwyth y cynllun a'r gallu i drosglwyddo'r hyn a ddysgir.
- Sefydlu cynllun sy'n hwyluso trosglwyddiad effeithlon o weithgaredd peilot i ddarpariaeth ryngwladol barhaus.

**Amseru a dilyniannu**

- Creu amserlen gydlynol sy'n cydlynu gweithgareddau peilot i gyfateb â chapasiti QAA a chylchoedd cynllunio allweddol y sector.
- Gosod dilyniannu clir ar gyfer prosesau'r Pwyllgor RhThrMiAU, pwyntiau ail-drwyddedu, y gwaith o addasu'r cwricwlwm ac amserlenni recriwtio.
- Sicrhau bod digon o amser ar gael i ddarparu a monitro'r cynllun, casglu tystiolaeth a gwerthuso'r cynllun yn gadarn.

**Risg ariannol ac adnoddau**

- Datblygu trefn ariannol sefydlog ac eglur i gefnogi cynllunio dros y tymor hir a buddsoddi cynaliadwy.
- Sicrhau bod y trefnau adennill costau'n gymesur ac yn hwyluso cyfranogiad sefydliadau o amrywiol feintiau.

**Y cymhwysedd i gael trwydded**

- Gweithredu fframwaith cymhwysedd cryfach - er enghraifft, gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi dal trwydded ar gyfer y DU am gyfnod parhaus - er mwyn sicrhau ansawdd a lleihau risgiau.
- Cynnwys gofynion o ran cymhwysedd mewn polisi hirdymor er mwyn sicrhau bod y gofynion yn gyson ac yn rhagweladwy i ddarpar gyfranogwyr yn y dyfodol.
- Hysbysu am y meini prawf yn fuan yn y broses er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a mynd i mewn i'r farchnad mewn ffordd drefnus.

**Y trefnau asesu a'u cymesuredd**

- Diffinio meini prawf clir a mesuradwy ar gyfer cyfranogi ac asesu, a disgwyliadau o ran dulliau darparu mewn gwledydd penodol.
- Symleiddio'r gofynion o ran dogfennaeth a thystiolaeth er mwyn lleihau'r llwyth gwaith gweinyddol a chefnogi cyflwyniadau effeithlon.
- Cynnal trefn weinyddol gymesur a sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddiol a swyddogaethau masnachol wedi eu gwahaniaethu'n glir, er mwyn cefnogi ymddiriedaeth ac effeithiolrwydd gweithrediadol.

## Y casgliad a'r camau nesaf

93 Darparodd yr ymgynghoriad ar y Diploma Rhyngwladol arfaethedig wybodaeth werthfawr am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y fframwaith Mynediad i AU y tu hwnt i'r DU. Er na fydd QAA yn bwrw ymlaen â'r prosiect peilot, mae'r adborth yn dangos cefnogaeth gref gan y sector i'r egwyddorion oedd yn tanategu'r cynnig gwreiddiol - cydraddoldeb ac ansawdd, diogelu dysgwyr a sicrhau eglurder, yn ogystal â nod sydd wedi ei alinio â mynediad a chynnydd.

94 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal cydraddoldeb ac ansawdd drwy sicrhau bod unrhyw Ddiploma Rhyngwladol yn y dyfodol yn parhau i gyfateb yn llawn â chymhwyster lefel 3 yn y DU, gan ddefnyddio Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio sy'n bodoli'n barod i ddiogelu cymharedd, dibynadwyaeth ac uniondeb academaidd ar draws y gwledydd. Roedd y rhain hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen trefnau cadarn ar gyfer diogelu dysgwyr a sicrhau eglurder, gyda disgwyliadau mwy clir ynghylch y cynlluniau ar gyfer gwledydd penodol, llwybrau cynnydd a threfniadau monitro cymesur sydd wedi eu llunio i ddiogelu'r dysgwyr a chynnal hyder yn nilysrwydd y cymhwyster.

95 Yn yr un modd, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i bob cynllun rhyngwladol barhau i adlewyrchu nod sydd wedi ei alinio â mynediad a chynnydd, gan gynnig llwybr cydnabyddedig i mewn i addysg uwch i ddysgwyr sy'n oedolion y tu allan i'r DU - gan gynnwys i addysg drawswladol y DU - wedi ei gefnogi gan allu priodol yn y Saesneg i alluogi pontio a chyflawniad academaidd llwyddiannus. Ystyriwyd bod yr egwyddorion hyn yn hanfodol, nid yn unig i hygrededd y cymhwyster ond hefyd i'w berthnasedd a'i werth mewn cyd-destun byd-eang amrywiol.

96 Gyda'i gilydd, dylai'r themâu hyn hysbysu ystyriaethau QAA os byddai'r amgylchiadau'n newid ac os ail gychwynnir gwaith ar ddatblygu cymhwyster rhyngwladol. Maent yn ffurfio fframwaith clir ar gyfer cydbwyso cyfle â risg, cefnogi trefnau sicrhau ansawdd cymesur, a sicrhau aliniad â chenhadaeth QAA i gynnal safonau ac ehangu mynediad i addysg uwch.

97 Diolchwn i'r cyfranwyr i gyd am eu hymatebion ystyriol, ac rydym yn ail-gadarnhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar gryfhau'r Diploma Mynediad i AU ar gyfer y DU.

98 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm Mynediad i AU drwy anfon e-bost at ahe@qaa.ac.uk.

## ATODIAD:

Dyma restr gyfun o argymhellion i'w hystyried yn y dyfodol:

**Rôl a nod y Diploma Rhyngwladol**

- Dylid mireinio'r diffiniad, ond dim ond yn y mannau lle bo angen er mwyn cynnal aliniad â'r Diploma ar gyfer y DU a chryfhau'r eglurder yn y meysydd hynny y tynnwyd sylw atynt gan yr ymatebwyr, yn cynnwys y gwahaniaethu oddi wrth raglenni blwyddyn sylfaen.
- Ystyried a fyddai cyfeirio'n fwy eglur at drylwyredd academaidd yn cefnogi safle rhyngwladol.
- Egluro'r disgwyliadau o ran cynnydd yn well, yn cynnwys bod yn dryloyw ynghylch llwybrau cynnydd yn y DU a thramor.
- Archwilio sut y gallai QAA gefnogi Asiantaethau DMiAU mewn gweithgareddau cydnabod cyd-drefnus (e.e. blaenoriaethu gwledydd allweddol, hwyluso trafodaethau, neu rannu gwybodaeth ddangosol am y sefydliadau sy'n derbyn y graddedigion).
- Ystyried sut y gallai dibyniaeth ar hunan-ariannu neu ariannu'n breifat effeithio ar fynediad i oedolion sy'n wynebu rhwystrau economaidd neu gymdeithasol, neu rwystrau eraill, i ddysgu.
- Archwilio cyfleoedd i sefydlu partneriaethau tymor hwy gyda llywodraethau neu gyrff cyllido er mwyn ehangu mynediad.
- Adolygu'r gofyniad oedran isaf er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi yn y DU a chynnal yr ethos dysgu oedolion.
- Darparu canllawiau i gefnogi Asiantaethau DMiAU a darparwyr wrth asesu parodrwydd y dysgwyr, yn arbennig os bydd eu profiad addysgol blaenorol yn amrywio.

**Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu**

- Diffinio'r prosiect peilot yn fwy manwl gywir, gan gynnwys egluro'r pwynt cychwyn ffurfiol, ystyr y geiriad 'darpariaeth graddfa fechan', a metrigau llwyddiant clir.
- Ystyried a yw ffenestr o ddwy flynedd yn ddigonol ar gyfer gweithredu a chwblhau'r prosiect peilot.
- Darparu cymorth wedi'i strwythuro'n dda i gyfranogwyr cynnar, yn cynnwys canllawiau, rhestrau gwirio ac amserlennu pwyntiau cysylltu.
- Archwilio a allai cynllun trwyddedu cyfunol ar gyfer gweithrediadau yn y DU a thramor leihau dyblygu.
- Symleiddio'r broses ymgeisio drwy egluro disgwyliadau o ran tystiolaeth, cynnig ceisiadau mewn camau, a rhoi canllawiau mwy eglur ynglŷn â beth yw 'cynllun credadwy'.
- Adolygu cyfyngiadau a allai gyfyngu ar ddichonoldeb yn ystod y cyfnod peilot (e.e. un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad).
- Egluro i ba raddau y bydd QAA yn ystyried yr effaith ar y farchnad leol wrth adolygu ceisiadau.
- Cyhoeddi fframwaith ffioedd cynnar eglur, sy'n cynnwys lefelau ffioedd dangosol wedi'u cyfrifo ar sail nifer y dysgwyr, trothwyon, a threfniadau ar ôl y cyfnod peilot.

- Ystyried diogelu costau rhyngwladol er mwyn osgoi croes-gymorthdalu o ffioedd yn y DU.
- Darparu canllawiau mwy eglur am ddulliau o is-gontractio ac etholfreinio'r ddarpariaeth sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin y tu allan i'r DU.
- Creu mecanweithiau sy'n caniatáu i drwyddedau gael eu hoedi neu eu haddasu os byddai'r amgylchiadau mewn gwlad benodol yn newid yn sylweddol.

**Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU**

- Cyfuno'r gofynion rheoleiddiol y tu mewn a'r tu allan i'r DU lle bo modd i leihau dyblygiad.
- Rhoi sail resymegol glir ar gyfer unrhyw ofynion ychwanegol sy'n benodol berthnasol i weithredu'n rhyngwladol.
- Sicrhau aliniad ag arferion sefydledig ar draws cyrff rheoleiddio cyfatebol.
- Blaenoriaethu dull monitro sy'n gymesur, wedi ei gwmpasu'n glir ac sy'n waith pen desg yn bennaf.
- Cyhoeddi canllawiau safonol am ddisgwyliadau o ran tystiolaeth, gofynion cyfieithu a digwyddiadau hysbysadwy.
- Ail asesu disgwyliadau o ran data am gyrchfannau rhyngwladol yr ymadawyr ac ystyried opsiynau llai manwl lle bo'n briodol.
- Egluro'r ffin rhwng goruchwyliaeth ddatblygiadol a sancsiynau ffurfiol, gan sicrhau bod prosesau ymyrryd yn gymesur ac yn eglur.
- Sefydlu egwyddorion ar gyfer adfer costau, cyfyngu ar ffioedd ymchwilio ac osgoi costau sy'n gysylltiedig â theithio, ac eithrio mewn achosion eithriadol.
- Ystyried sut y bydd prosesau ymchwilio'n gweithredu mewn cyd-destun rhyngwladol.
- Cynnal gwahaniad clir rhwng gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r DU er mwyn osgoi dargyfeirio adnoddau neu gapasiti rheoleiddio.
- Cyhoeddi trefnau ffioedd, amserlenni a gofynion ymgeisio'n gynnar er mwyn helpu i gynllunio'n effeithiol.
- Lleihau'r llwyth gwaith biwrocrataidd wrth wneud cais am drwydded, gan gynnwys cynnig opsiynau i wneud ceisiadau'n gyfnodol neu mewn camau.
- Sicrhau bod amserlenni'n osgoi gwrthdaro â'r cyfnodau mwyaf prysur yn y DU (e.e. cylchoedd ail-drwyddedu).

**Arferion addysgu, dysgu ac asesu**

- Rhoi arweiniad clir ynglŷn â pha dystiolaeth sy'n dderbyniol i ddangos cyrhaeddiad B2 a sut y dylid ei gwirio.
- Egluro y dylai Asiantaethau DMiAU oruchwylio prosesau eu darparwyr ond na ddylent asesu gallu'r dysgwyr yn y Saesneg yn uniongyrchol.
- Ystyried addasiadau rhesymol i ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu gefndiroedd addysgol dwyieithog.
- Amnewid cyfyngiadau sefydlog ar ddarparu ar-lein am ddull hyblyg lle mae'r risgiau wedi eu rheoli, gan ganiatáu i Asiantaethau DMiAU gyfiawnhau cyfrannau uwch lle bo'n briodol.

- Cyhoeddi diffiniadau clir o ddulliau darparu cydamserol/anghydamserol, dysgu o bell, dysgu cyfunol a 'gwerth addysgol amlwg'.
- Sicrhau nad yw'r gofynion o ran dulliau darparu'n eithrio'n anfwriadol y dysgwyr hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu sy'n ddysgwyr difreintiedig.
- Sicrhau bod disgwyliadau o ran sicrhau ansawdd yn diogelu dilysrwydd y cymhwyster heb gyfyngu ar gynlluniau darparu arloesol.
- Cynhyrchu canllawiau ar roi'r gofynion yn eu cyd-destun priodol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r DU, yn cynnwys sut i addasu esiamplau gan sicrhau cydraddoldeb â'r manylebau ar yr un pryd.
- Egluro sut y dylid datrys gwrthdaro rhwng disgrifyddion lefel 3 yn y DU a fframweithiau lleol.
- Darparu defnyddiau ar gyfer hyfforddi tiwtoriaid a meini prawf safoni sy'n benodol berthnasol i ddarpariaeth ryngwladol.
- Cynnig esiamplau neu ganllawiau cymharol i gefnogi'r gwaith o ddehongli graddau mewn ffordd gyson ar draws cyd-destun diwylliannol amrywiol.

**Marchnata'r Diploma Rhyngwladol**

- Datblygu cynnig gwerth clir a pherthnasol yn fyd-eang sy'n egluro'r ffordd y mae'r Diploma Mynediad i AU yn wahanol i Lefelau A, rhaglenni blwyddyn sylfaen a llwybrau lefel 3 eraill.
- Pwysleisio nodweddion gwahaniaethol megis hyblygrwydd, fforddiadwyedd, mynediad cyfartal a chyfleoedd i symud ymlaen.
- Darparu canllawiau hyrwyddo a brandio cyson - yn cynnwys cysondeb mewn terminoleg, logos a disgrifyddion cymhwyster - er mwyn sicrhau cyfathrebu cydlynol ar draws yr Asiantaethau DMiAU a marchnadoedd newydd.
- Egluro cwmpas tebygol cyfranogaeth QAA yn y gwaith hyrwyddo byd-eang, gan gynnwys esbonio a fydd yn ymgysylltu â llywodraethau a chyrff cyllido'n uniongyrchol.
- Amlinellu ffyrdd posibl o flaenoriaethu a thargedu gwledydd neu ranbarthau penodol.
- Cynnig deunyddiau cefnogol i'r sector cyfan - megis deunyddiau briffio am farchnadoedd penodol, templedi, neu grynodebau o gytundebau cydnabod - i helpu Asiantaethau DMiAU i alinio eu gwaith allgymorth â'u gweithgareddau ymgysylltu.
- Adolygu'r ymgysylltiad rhwng rheolau darparu (e.e. cyfyngiadau ar ddysgu ar-lein, gofynion o ran cymhwysedd, llwybrau cynnydd) ac amcanion marchnata byd-eang.
- Sicrhau nad yw fframweithiau gweithredol yn cyfyngu'n anfwriadol ar atyniad, hygyrchedd neu ddichonoldeb y Diploma mewn marchnadoedd allweddol.
- Gweithredu safonau clir, gofynion o ran eglurder, a threfniadau goruchwylio ar gyfer asiantau recriwtio er mwyn sicrhau y rhoddir gwybodaeth gywir a diduedd i'r dysgwyr, heb unrhyw gymhellion ariannol neu ffioedd cudd.
- Cyflwyno trefnau cwyno hygyrch i ddysgwyr sy'n ceisio cyfiawnder fel bod modd iddynt godi pryderon, ceisio datrysiad, a chael eu diogelu rhag arferion camarweiniol neu annheg.

**Trefniadau pontio a gweithredu**

- Alinio unrhyw gynllun peilot wedi'i adnewyddu â'r fframwaith trwyddedu rhyngwladol hirdymor er mwyn sicrhau datblygiad graddedig a chysondeb gweithredol.
- Symleiddio nodweddion y cynllun ac egluro'r cyfrifoldebau er mwyn hwyluso gweithrediad mwy esmwyth y cynllun a'r gallu i drosglwyddo'r hyn a ddysgir.
- Sefydlu cynllun sy'n hwyluso trosglwyddiad effeithlon o weithgaredd peilot i ddarpariaeth ryngwladol barhaus.
- Creu amserlen gydlynol sy'n cydlynu gweithgareddau peilot i gyfateb â chapasiti QAA a chylchoedd cynllunio allweddol y sector.
- Gosod dilyniannu clir ar gyfer prosesau'r Pwyllgor RhThrMiAU, pwyntiau ail-drwyddedu, y gwaith o addasu'r cwricwlwm ac amserlenni recriwtio.
- Sicrhau bod digon o amser ar gael i ddarparu a monitro'r cynllun, casglu tystiolaeth a gwerthuso'r cynllun yn gadarn.
- Datblygu trefn ariannol sefydlog ac eglur i gefnogi cynllunio dros y tymor hir a buddsoddi cynaliadwy.
- Sicrhau bod y trefnau adennill costau'n gymesur ac yn hwyluso cyfranogiad sefydliadau o amrywiol feintiau.
- Gweithredu fframwaith cymhwysedd cryfach - er enghraifft, gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi dal trwydded ar gyfer y DU am gyfnod parhaus - er mwyn sicrhau ansawdd a lleihau risgiau.
- Cynnwys gofynion o ran cymhwysedd mewn polisi hirdymor er mwyn sicrhau bod y gofynion yn gyson ac yn rhagweladwy i ddarpar gyfranogwyr yn y dyfodol.
- Hysbysu am y meini prawf yn fuan yn y broses er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a mynd i mewn i'r farchnad mewn ffordd drefnus.
- Diffinio meini prawf clir a mesuradwy ar gyfer cyfranogi ac asesu, a disgwyliadau o ran dulliau darparu mewn gwledydd penodol.
- Symleiddio'r gofynion o ran dogfennaeth a thystiolaeth er mwyn lleihau'r llwyth gwaith gweinyddol a chefnogi cyflwyniadau effeithlon.
- Cynnal trefn weinyddol gymesur a sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddiol a swyddogaethau masnachol wedi eu gwahaniaethu'n glir, er mwyn cefnogi ymddiriedaeth ac effeithiolrwydd gweithrediadol.

Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk